Capeli a adroddwyd i CAPEL

Ceisiadau Adeiladu a Chapeli dan Fygythiad

Rhestr 1

Bwriedir gwneud newidiadau sylweddol i'r capeli canlynol ond nid oedd cynlluniau manwl neu fanylion pellach ar gael. Nid oedd modd felly ymateb yn ysgrifenedig i'r Awdurdod Cynllunio perthnasol. Mae'r rhestrau yn cyfeirio at y cyfnod o Fedi 2005 hyd ddiwedd Chwefror 2006.

Capel y 'Dock', Morfa, Llanelli, Sir Gaerfyrddin: Caniatâd Cynllunio Diwygiedig am addasu'r capel i 8 fflat.

Salem, Capel y Bedyddwyr, Llandybie, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin: Ei ddatblygu'n dŷ annedd.

Capel Engedi (gynt), Brymbo, Wrecsam: Dymchwel yr adeilad a chodi 4 tŷ annedd.

Safle blaenorol Nebo, Capel y Bedyddwyr, Glyn Ebwy, Blaenau Gwent: Datblygiad cynllun tai cynaledig Cymdeithas Tai Unedig Cymru.

Eglwys Ddiwygiedig Unedig Berea, Nantyglo, Blaenau Gwent (Rhestredig): Yn awr yn Fosg Cymdeithas Islamaidd Imaan. Newidiadau i'r gegin, toiledau ayb fel y gellir defnyddio'r mosg eto.

Capel Rhydfendigaid, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig: Adeiladu toiled i'r anabl.

Tŷ'r Ysgol Capel y Bedyddwyr Hill Park, Prendergast, Hwlffordd: Ei drawsnewid yn 6 fflat un ystafell wely - mynedfa anodd i safle cyfyngedig. Y nodweddion gwreiddiol i'w cadw a'u hadfer. Ni fydd y capel yn cael ei effeithio.

Capel Berea, Cefn Bryn Brain, Abertawe: Adeiladu 6 byngalo ar wahân i'w gilydd, gyda ffyrdd a gwasanaethau.

Capel Elim, Ffordd Llandybie, Rhydaman: Ei addasu i 2 uned breswyl.

Rhestr 2

Roedd copïau o gynlluniau a gwybodaeth arall ar gael yn yr achosion hyn ac roedd modd felly i Capel archwilio a rhoi sylwadau arnynt.

Capel Hawen a'r Festri, Tan y groes, Llandysul, Ceredigion (Rhestredig Gradd II): Yr adeilad wedi'i drawsnewid yn effeithiol i 3 tŷ annedd ar ôl ystyried ffyrdd eraill y gellid ei ddefnyddio.

Eglwys Bentecostaidd Towyn, Sir Ddinbych: Estyniad i'r eglwys bresennol a'r maes parcio.

Capel MC, Pontrobert, Meifod: Trawsnewidiad da a sensitif i dŷ annedd

Capel Ebenezer, Ceinws, Machynlleth: Ei addasu i dŷ. Balconi'r llawr cyntaf a threfniadau ar gyfer goleuadau i'r to yn anfoddhaol, hefyd pryderon ynglŷn â chynllun y drysau a'r ffenestri.

Capel Peniel, Llan Ffestiniog, Gwynedd (Rhestredig): Isrannu a thrawsnewid y festri yn dŷ annedd. Ni fydd y capel yn cael ei effeithio.

Capel Ffynhonnau a'r tŷ wrth ei ochr; Llanefydd, Dinbych (Rhestredig Gradd II): Gwneir newidiadau iddo, ei droi yn un aneddle a chodi garej/gweithdy. Trawsnewidiad boddhaol ar ôl 5 mlynedd o ddirywiad. Codwyd cwestiynau ynglŷn â'r gwaith gwydr yn y drws, y plac ar y wal, a'r rheiliau Art Nouveau.

Capel Pen y Bryn, Dolfor, Y Dre Newydd. Addasu'r capel i dŷ annedd gyda mynediad i gerbydau. Trawsnewidiad da ond cwestiynwyd yr angen am ffenestri talcen ffrynt ychwanegol yn ogystal â goleuadau to a wal anferth wydr yn y cefn.

Capel Bethania, Bontddu, Gwynedd: Addasu'r capel i dŷ annedd. Cynnig anfoddhaol a mynegwyd pryderon am y placiau allanol a'r diffyg manylion am ddrysau a ffenestri. Gwrthodwyd y cais cynllunio.

Capel Bethlehem, Cwmerfyn, Aberystwyth: adeilad yn ymyl y ffordd a oroesodd y gymuned fwyngloddio plwm. Cais i'w drawsnewid a'i ymestyn. Cynigiwyd gwaith gwydr a phlinth carreg ansensitif, hefyd y defnydd o *upvc* neu bren meddal wedi'i staenio. Cyflwynwyd y sylwadau gan Rob Scourfield.

Capel y Methodistiaid, Tre'r Ddôl, Machynlleth: Ei drawsnewid yn uned gwyliau a chynigiwyd strwythur mewnol anarferol. Capel Fictoraidd deniadol sy'n haeddu cael ei restru. Cyflwynwyd y sylwadau gan Rob Scourfield.

Eglwys Bentecostaidd Towyn, Ffordd y Gors, Towyn, Bae Colwyn: Estyniad i'r adeilad modern presennol gan gadw at arddull a deunyddiau sy'n cydweddu. Ni chafwyd gwrthwynebiad.

Capel Llys Awen, Derwenlas, Machynlleth: Trawsnewidiad capel segur yn ymyl Llys Awen i ymestyn y tŷ annedd gyda libart preswyl ychwanegol tua'r cefn (newid defnydd y tir amaethyddol). Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad.

Capel Soar, Castell-y-Bwlch, Henllys, Cwmbran (Gradd II Rhestredig). Trawsnewidiad sensitif i breswylfa ar wahân. Capel (1836) syml ei rendrad y tu ôl i fynwent fechan ar groesffordd unig. Y peth gorau a allai ddigwydd i'r capel hwn, mae'n siŵr.

Yr Hen Gapel, Stryd y Parc, Y Dre Newydd, Powys: Ei addasu yn swyddfeydd. Trawsnewidiad da gyda ffenestri ychwanegol ar y wal ochr yn cydweddu, a goleuadau to.

Capel segur, Waterfall Road, Dyserth, Sir Ddinbych: Ei droi yn 4 fflat a hyn felly yn golygu dinistrio'r tu mewn. Mewn Ardal Gadwraeth. Trefniadau wedi'u gwneud â'r Swyddog Cadwraeth i Capel gael tynnu lluniau'r tu mewn. Cynigion ynglŷn â'r tu allan yn foddhaol ac eithrio trefniadau parcio o flaen y capel.

Newyddion am y Capeli

Capel Ffynhonnau a'r Tŷ Capel gerllaw, Llanefydd, Dinbych: y cais am droi'r capel yn dŷ annedd ynghyd â chodi garej/gweithdy wedi cael ei gymeradwyo, dan amodau.

Capel Annibynnol Soar, High Street, Merthyr Tudful: Mynegodd aelodau Capel bryderon am ddyfodol paentiadau, dogfennau a llyfrgell y capel yn y festri. Gall Capel gadarnhau nad yw'r eitemau hyn mewn unrhyw berygl, ac mae eu diogelwch wedi ei warantu.

Capel Bethania, Bontddu, Gwynedd: Cefnogodd Capel y cais i drawsnewid y capel hwn yn amodol ond ar hyn o bryd mae'r cais cynllunio wedi'i wrthod.

Capel Arenig, Arenig, Bala: Apêl wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad yn erbyn y penderfyniad i wrthod y cais cynllunio i droi'r Tabernacl Tun hwn yn llety gwyliau.

Capel Horeb, (Presbyteraidd 1862), Pentyrch, ger Llantrisant: Caewyd ym mis Mehefin 2005 ac mewn perchnogaeth breifat yn awr. Ar ôl ei adnewyddu, bydd y capel yn ailagor fel neuadd gyngerdd fechan a bydd yn dal i gael ei ddefnyddio fel capel.

Capel Bedyddwyr Hope, Crosskeys, Gwent: Cafodd ffreutur y gweithwyr ym mhentref Blaen-y-Cwm, a ddefnyddiwyd yn ystod adeiladu cronfa ddŵr Grwyne Fawr, ei werthu wedi hynny i'r eglwys hon a'i ailadeiladu yn y cefn fel ysgoldy. Yn 2007, bydd yr eglwys yn dathlu ei 125^{ain} pen-blwydd.

Eglwys Ddiwygiedig Unedig Capel Crist, Llandudno, Gwynedd (Gradd II Rhestredig): Yn ddiweddar, ailwerthwyd y capel hwn a'r bwriad yw ei ddefnyddio fel man arddangos arteffactau pensaernïol cyffredinol ac arteffactau sydd wedi'u hailgylchu.

Capel Annibynnol Seion, Llanwnog (ger Caersws): Adeiladwyd 1826 ar dir a roddwyd gan ffermwr lleol. Ailadeiladwyd 1895. Erbyn hyn dim ond 5 neu 6 o aelodau sydd yn y capel. Penderfynwyd cau'r capel gyda Gwasanaeth Diolchgarwch ar 20 Medi 2006. Mae'r capel mewn cyflwr da ond nid oes modd defnyddio'r festri.